OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1937 (Cy. 291)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Tachwedd 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *27 Tachwedd 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Rhagfyr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972")(**2**) mewn perthynas ag atal ac adfer difrod amgylcheddol ac maent yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(**3**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009")(**4**). Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. At ddibenion Rheoliadau 2009 fel y maent yn cael effaith fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i offerynnau'r UE y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 2009 gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

(**1**) O.S. 2014/1890.

(**2**) 1972 p.68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p.7).

(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1388.

(**4**) O.S. 2009/995 (Cy. 81); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2011/556, 2011/971 (Cy. 141), 2012/630, 2013/755 (Cy. 90) a 2015/1394 (Cy. 138). Offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r dibenion hyn yw O.S. 2011/1043 ac O.S. 2011/2131.